

Briffio – rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Digwyddiad Amgylcheddol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o sawl asiantaeth gyda rôl allweddol i'w chwarae wrth ymateb i ddigwyddiad neu argyfwng amgylcheddol. Mae'r gwasanaethau brys, sefydliadau GIG ac awdurdodau lleol i gyd yn ymatebwyr craidd gyda chyfrifoldebau cyfreithiol (weithiau gelwir yn ymatebwyr Categori 1 o dan Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl).

Mewn digwyddiad amgylcheddol, mae arbenigwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gydag asiantaethau eraill i asesu a helpu i reoli risgiau'r digwyddiad i'r cyhoedd. Ar ôl asesu'r risgiau, rydym yn rhoi cyngor ar yr hyn y gall y cyhoedd ei wneud i atal neu leihau unrhyw niwed i iechyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yn arbennig yn fuan mewn digwyddiad pan fydd gwybodaeth gyfyngedig ar gael, rydym yn defnyddio ein gwybodaeth am ddigwyddiadau tebyg, ynghyd â thystiolaeth ymchwil, i roi cyngor ar y ffyrdd gorau i amddiffyn iechyd. Efallai y byddwn yn cysylltu ag asiantaethau eraill hefyd, fel Iechyd y Cyhoedd Lloegr, i siarad gyda'u harbenigwyr nhw a chytuno ar y cyngor gorau i'w roi.

Weithiau, rydym yn trefnu i asiantaethau eraill gynnal proses monitro amgylcheddol i helpu gyda'n hasesiad risg. Nid oes gan Iechyd Cyhoeddus Cymru unrhyw gyfrifoldebau monitro amgylcheddol, nid oes ganddo gyfarpar monitro, ac nid oes ganddo staff sy'n gallu gweithredu offer o'r fath. Yr hyn y gallwn ei wneud yw adolygu unrhyw ddata a gasglwyd gan asiantaethau eraill, a dehongli beth mae'r canlyniadau yn ei olygu i iechyd y cyhoedd.